



At: Llywodraethwyr Ysgol a Phenaethiaid

25 Medi 2020

Annwyl Llywodraethwyr Ysgol a Phenaethiaid,

Mae Llywodraeth Cymru angen data ar sail reolaidd i ddeall patrymau presenoldeb cyffredinol ac i ddynodi nodweddion disgyblion sydd ddim yn mynychu. Mae'n hanfodol fod data amserol ar gael yn rheolaidd ar lefel digon manwl. Cesglir hyn ar lefel awdurdod lleol ar sail ddyddiol ar hyn o bryd. Rwyf yn llwyr gydnabod yr heriau mae ysgolion yn eu hwynebu o ganlyniad uniongyrchol i pandemig Covid-19 ac yn gwerthfawrogi eich ymdrechion parhaus i sicrhau fod data ar gael.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu proses newydd i gasglu data ar bresenoldeb o ddydd Llun 28 Medi. Mae'r casgliad newydd hwn yn adeiladu ar drafodaethau a gynhaliwyd gan swyddogion gydag ADEW ac arweinwyr casglu data o fewn awdurdodau lleol. Bydd y data'n cael ei gasglu trwy Wasanaeth Darparu Data Ysgolion Llywodraeth Cymru, a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Hwb.

Bydd y data canlynol yn cael ei gasglu'n awr ar gyfer dibenion y prosiect hwn:

- Rhif Unigol y Disgybl (RhUD)
- Enw cyntaf
- Enw(au) canol
- Cyfenw
- Rhyw
- Dyddiad Geni
- Cod Post Cartref
- Cefndir ethnig
- Cymhwyster am brydau ysgol am ddim
- Anghenion dysgu ychwanegol
- Saesneg fel iaith ychwanegol
- Cod presenoldeb ar gyfer pob sesiwn hanner diwrnod

I lawer, bydd y newid hwn mewn dull casglu data yn lleihau'r baich ar ysgolion ac awdurdodau lleol gan y bydd y wybodaeth yn cael ei chasglu o'r data a gofnodir fel mater o drefn gan ysgolion.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Hyd yn hyn, mae nifer o ysgolion wedi cefnogi awdurdodau lleol i gasglu'r data dyddiol. Rwy'n gwybod fod hyn wedi ychwanegu at eich prosesau gweinyddol, ac yn diolch i chi am gymryd yr amser i gyflwyno'r wybodaeth hon. Rwy'n gofyn i chi barhau i gyflwyno'r wybodaeth hon tra ein bod yn cyflwyno'r system newydd. Unwaith y bydd y system newydd wedi'i sefydlu'n llwyr, ni fyddwn bellach yn gofyn i ysgolion gyflwyno data dyddiol i awdurdodau lleol.

Bydd y broses newydd o gasglu data wythnosol yn dechrau ar ddydd Llun 28 Medi. Ni fydd gofyn i ysgolion gofnodi unrhyw fanylion pellach na dilyn unrhyw brosesau ychwanegol na ddarperir fel mater o drefn i gyfrannu tuag at gasglu'r data newydd. Cesglir y wybodaeth yn awtomatig trwy'r Systemau Rheoli Gwybodaeth i Ysgolion (MIS). I gefnogi'r broses casglu newydd, bydd angen i ysgolion ac Awdurdodau Lleol sicrhau fod Gwasanaeth Darparu Data Ysgolion Llywodraeth Cymru yn rhedeg ar sail reolaidd. Dylai ysgolion barhau i ddiweddarau eu systemau MIS ddwywaith yr wythnos, gan fod hyn yn ofynnol yn unol â'r gyfraith, er mwyn sicrhau fod trosglwyddo data awtomatig yn ddiweddar. Mantais ychwanegol y system newydd yw y byddwn yn gallu dethol gwybodaeth ddiweddar yn gyflym heb ofyn am unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff y wybodaeth ei chofnodi'n lleol.

Rydym yn gofyn i ysgolion sicrhau fod yr holl rieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r system casglu data newydd hwn. Bydd y rhybudd preifatrwydd sydd wedi'i atodi yn cyflwyno gwybodaeth bellach ar sut y bydd y data'n cael ei ddefnyddio yn y broses newydd.

Yn gywir

Lynette Lovell
Prif Swyddog Addysg (Dros Dro)